# Y CABINET DYDD MAWRTH, 4 HYDREF 2022

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn**,** Craig ab Iago, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Menna Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Ioan Thomas.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Adran Gyllid), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 5: Sioned Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned)
Eitem 7: Carys Fon Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng. Nia Jeffreys.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod, ac yn benodol Huw Dylan Owen ar ei gyfarfod cyntaf fel Cyfarwyddwr Corfforaethol.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. ADRODDIAD PERFFORMAID YR AELOD CABINET DROS ECONOMI A CHYMUNED

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi y prif gynlluniau. Nodwyd o ran Uchelgais y Gogledd fod rhai prosiectau bellach ar waith, ond eglurwyd fod un cynllun bellach wedi ei dynnu yn ôl. Mynegwyd fod cynllun Bodelwyddan wedi ei dynnu yn ôl o ganlyniad i newidiadau yn y cynllun datblygu lleol a olygwyd ei fod yn addasu holl ansawdd y prosiect. Eglurwyd fod trefniadau yn ei lle i ystyried cynlluniau i lenwi'r bwlch.

Tynnwyd sylw at gais i gyflawni Ffordd Mynediad Llanbedr ac i osgoi y pentref gan nodi fod yr adran yn parhau i ddisgwyl am gyhoeddiad gan y Llywodraeth Prydain i wybod os yw'r cais wedi bod yn llwyddiannus. Cyfeiriwyd at gynllun Arfor gan nodi fod y Llywodraeth a'r Awdurdodiadau bellach wedi cytuno ar y cynlluniau ond eu bod yn parhau i disgwyl am y llythyr ffurfiol er mwyn cychwyn ar y gwaith. Amlygwyd fod yr amserlen yn mynd i fod yn dynn i wario yr arian o fewn y 6 mis nesaf.

Bu i'r Pennaeth Adran dynnu sylw yn benodol at berfformiad yr adran, gan adrodd y bydd angen cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet ar sefyllfa Byw'n Iach. Eglurwyd er yn galonogol fod nifer defnyddwyr yn dychwelyd i'r gwasanaeth yn codi, mae'n parhau i fod yn isel yn dilyn cyfnod y pandemig ac fod yn rhoi pwysau ychwanegol ar eu cyllideb.

Ar y llaw arall nodwyd fod Hafan, Pwllheli sy'n rhan o'r Gwasanaeth Morwrol bellach yn llawn ac fod hyn yn rhoi pwysau ar is-adeiledd ac y galw am fuddsoddiad pellach yno. O ran y sefyllfa arbedion nodwyd fod pwysau ar gyllideb yr adran gan fod gwaith uwchraddio Neuadd Dwyfor wedi arafu o ganlyniad i'r pandemig ac felly heb gyrraedd ei darged incwm. Ond eglurwyd fod gwaith cynllunio manwl yn cael ei wneud ac fod yr adran yn gobeithio y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn haf nesaf.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Amlygwyd fod rhai traethau wedi cael problemau mawr dros yr haf, yn benodol yn Morfa Bychan gyda Cartrefi Modur yn aros dros nos. Holwyd os oes modd sicrhau fod y sefyllfa yn cael ei datrys cyn haf nesaf. Eglurwyd fod llythyr bellach wedi ei baratoi a fydd yn cael ei gyflwyno i'r unigolion a fydd yn gwrthod symud eu cerbydau a / neu cydymffurfio a fydd yn rhoi dirwy o hyd at £1000 iddynt, ac y bydd hyn yn gobeithio yn weithredol o'r Pasg ymlaen.
- Nodwyd fod nifer o gynlluniau yn edrych ar greu gwaith yn yr ardal, ac amlygwyd bellach fod prinder pobl i lenwi'r swyddi. Eglurwyd fod y sefyllfa wedi newid ers pan crëwyd y cynlluniau bum mlynedd yn ôl, ac felly bydd yr heriau newydd yn cael eu hamlygu yn Cynllun y Cyngor nesaf.
- Mynegwyd fod cronfeydd Ewropeaidd yn o dod i ben dros y blynyddoedd nesaf, gyda'r mwyafrif o'r gwariant yn gorfod cael ei gwblhau erbyn 2023. O ganlyniad i hyn nodwyd y bydd nifer o wasanaethau a swyddi yn cael ei dad gomisiynu. Esboniwyd fod dwy gronfa ar gael gan Lywodraeth Cymru, ac fod yr adran yn disgwyl am ganlyniad cais ar gyfer y Gronfa Ffyniant Cyffredinol, ac y bydd

£24miliwn yn dod i Wynedd drwy'r Gronfa Ffyniant Bro. Eglurwyd y bydd angen gwario'r arian ymhen dwy flynedd a hanner sydd yn gyfnod byr tu hwnt. O ran y Rhaglen Datblygu Gwledig, esboniwyd fod Llywodraeth Cymru wedi amlygu fod yr arian hwn yn cael ei glustnod ar gyfer cynlluniau amgylcheddol amaethyddol a olygai y bydd nifer o gynlluniau eraill a swyddi yn dod i ben. Mynegwyd fod yr adran yn ceisio cynllunio er mwyn adeiladu ar y cynlluniau hyn yn hytrach 'na cychwyn o'r dechrau.

- Diolch i'r staff am eu gwaith.

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS GEFNOGAETH GORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Jones

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod gan yr adran Gefnogaeth Corfforaethol 9 blaenoriaeth gwella o fewn Cynllun y Cyngor. Nodwyd fod un ohonynt sef Cynllunio Gweithlu yn her i bawb ond fod gwaith yn cael ei wneud o fewn yr adran i edrych ar hyn. O ran cynllun Cadw'r Budd yn Lleol ei fod yn symud i'r cyfeiriad cywir a mynegwyd fod yr Aelod Cabinet yn edrych ymlaen i barhau gyda'r gwaith da sydd yn cael ei wneud yn y maes cydraddoldeb.

Tynnwyd sylw at y maes Cyfreithiol gan nodi fod hyfforddiant i aelodau yn ystod y cyfnod croeso wedi mynd yn arbennig o dda. Amlygwyd yn ogystal fod canran o bobl ifanc 16+ a oedd wedi cofrestru i bleidleisio bellach wedi codi i 70%. Mynegwyd fod hyn o ganlyniad i benodi aelod o staff i annog bobl ifanc ynghyd ag arwain y gwaith.

Ar y cyfan nodwyd fod yr aelod Cabinet yn hapus gyda perfformiad yr adran.

Ychwanegodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol y bydd dau o'r blaenoriaethau gwella yn dod i ben yn naturiol eleni sef Hybu Defnydd o'r Cymraeg ac y Defnydd o'r Gymraeg mewn Gwasanaethau Cyhoeddus. O ran perfformiad yr adran nodwyd fod peth oedi wedi bod o ganlyniad i'r pandemig yn y maes gwyliadwriaeth iechyd, ac fod y tîm iechyd galwedigaethol yn ceisio dal i fyny gyda'r gwaith. Ychwanegwyd fod y gwaith o greu endid annibynnol i Hunaniaith yn parhau ac fod y grŵp arweiniol yn hyderus y bydd modd gwneud datganiad yn yr Eisteddfod yn 2023.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd gyda nifer uchel o ddynion i'w gweld ar y Tîm Rheoli o fewn y Cyngor beth mae'r cynllun Merched mewn Arweinyddiaeth yn ei wneud i hybu merched mewn rolau uwch o fewn y Cyngor. Nodwyd fod Grŵp

Gweithredol Merched mewn Arweinyddiaeth yn cyfarfod yn rheolaidd ac fod nifer o gynlluniau megis y rhaglen datblygu potensial a sgyrsiau dros baned i staff a Cynghorwyr. Eglurwyd fod sylfaen bendant wedi ei osod a nodwyd hyder y bydd y cynllun yn llwyddiannus ond fod newid diwylliant am gymryd amser. Ychwanegwyd yn ogystal fod nifer y merched sydd wedi ymgeisio am swyddi uwch wedi codi ond nad oeddent i'w gweld yn y penodiadau eto.

- O ran y Gwaith Cynllunio Gweithlu, nodwyd balchder fod y gwaith yn symud yn ei flaen ond ei fod yn her fawr sydd i'w gweld ar draws y Cyngor. Holwyd sut mae'r Cynllun yn mesur y perfformiad. Nodwyd fod y Grŵp Cynllunio Gweithlu yn cyfarfod yn fisol, ac y bydd ystadegau yn cael ei cyflwyno i'r aelodau Cabinet dros yr wythnosau nesaf. cael ystadegau i sicrhau ddim mewn lle gwell na be da ni yn meddwl.
- Holwyd sut mae'r cyfleon o fewn y Cyngor, megis Cynllun Yfory a Prentisiaethau yn cael ei gwerthu i bobl ifanc. Nodwyd fod cynllun newydd yn y broses o gael ei ddatblygu ac fod nifer uchel o ymweliadau gyda sefydliadau addysgol dros y flwyddyn a hanner diwethaf. Pwysleisiwyd yn ogystal fod y ddau gynllun yn cael ymgeiswyr o safon yn ymgeisio am y cyfleoedd.
- Mynegwyd fod llawer o sôn am brinder tai a'r argyfwng tai ar Gyfryngau Cymdeithasol, a nodwyd fod nifer o'r sylwadau yn amlygu mai diffyg swyddi da o fewn y sir yw'r broblem fwyaf. Nodwyd fod y naratif yma yn hen gan fod nifer o gyfleodd da o ran swydd, ac fod amrywiaeth eang o swyddi i'w gweld ar draws Gwynedd.
- Nodwyd fod merched, yn benodol merched sy'n gynghorwyr, yn aml yn cael ei gweld fel targedau haws ac yn cael ei trin mewn ffordd wahanol ar Gyfryngau Cymdeithasol a holwyd beth mae'r Cyngor yn wedi wneud i gefnogi merched yn y sefyllfa hwn. Nodwyd fod cefnogaeth ymarferol i aelodau a llawer o waith wedi ei wneud yn ddiweddar. Eglurwyd fod digwyddiadau dros y misoedd diwethaf wedi sicrhau fod diogelwch merched wedi ei drafod ar draws y Cyngor, er mwyn sicrhau fod camau ychwanegol yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau diogelwch.

## 7. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS DAI A EIDDO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr Aelod Cabinet yn hapus iawn gyda perfformiad yr adran a tynnwyd sylw at rai agweddau. O ran y sefyllfa Digartrefedd nodwyd ei fod yn sefyllfa sy'n gwaethygu yn ddyddiol gyda'r ffigyrau bellach 50% yn uwch nag oedd i'w weld cyn y pandemig. Eglurwyd fod y cynlluniau a grëwyd cyn y pandemig bellach ddim yn ddigon da, ac fod angen

creu cynlluniau er mwyn gweithredu ar yr egwyddor o gartrefu unigolion o fewn eu cymunedau. Amlygwyd fod un cynllun yn gofyn i landlordiaid preifat i ddefnyddio eu tai i gartrefu pobl leol yn hytrach nac eu ddefnyddio ar gyfer llety gwyliau.

Tynnwyd sylw at gynllun arloesol sydd i'w weld yn y gwasanaeth digartrefedd, gyda cefnogaeth iechyd meddwl arbennig. Eglurwyd fod canran uchel o unigolion di-gartref a problemau iechyd meddwl ac fod yr adran wedi penodi aelod o staff sydd a arbenigedd yn y maes a fydd yn ceisio gweithio gyda unigolion fel bod modd eu cadw pobl yn eu cartrefi ac i'w hatal rhag mynd yn ddigartref.

Mynegwyd fod y Cyngor bellach wedi prynu darn o dir ym Morfa Nefyn er mwyn adeiladu tai a fydd yn cartrefu pobl leol yng nghanol y pentref mewn tai fforddiadwy, hawdd i'w cynhesu ac yn amgylcheddol wyrdd. Nodwyd fod y tai yma wedi ei seilio ar syniad o Dŷ Gwynedd, sef creu y math o dŷ mae trigolion Gwynedd ei angen ac nid yn unig yn dŷ ond yn gartref.

Ar y cyfan, nododd yr Aelod Cabinet ei fod yn hapus a'r perfformiad ond ei bod yn anodd dathlu gan fod y sefyllfa yn parhau heb ei datrys ond fod yr adran yn ceisio eu gorau i gynorthwyo pobl gan greu gobaith mewn sefyllfa anobeithiol.

Ychwanegodd y Pennaeth Adran eu bod yn ymwybodol o heriau sylweddol sydd yn wynebu yr adran yn dilyn y pandemig, brexit, cynnydd mewn costau byw ynghyd â chynnydd mewn digartrefedd. Nodwyd fod yr adran yn awyddus i newid rhai o'i cynlluniau sydd i'w gweld o fewn  Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023/34 a fydd yn cynnwys blaenoriaethau newydd sydd yn fwy penodol i fynd i'r afael ar heriau sy'n wynebu'r adran.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd am y Cynllun Iechyd Meddwl fydd o fewn y tîm digartrefedd. Eglurwyd fod y cynllun yn un arloesol ac unigryw i Wynedd, eglurwyd fod hwn yn gynllun sydd am sicrhau cefnogaeth i'r digartref gan y Maes Iechyd. Mynegwyd ei fod yn enghraifft glir o sut mae'r adran yn ceisio meddwl yn wahanol ac yn gweithio i ddatrys problemau.
- Mynegwyd fod y podiau sydd i'w gweld yng Nghaernarfon ar gyfer y digartref bellach yn ymddangos wedi ei cwblhau ond fod problemau gyda Dŵr Cymru ac fod nifer o gwestiynau wedi codi yn lleol pam nad oes neb yn byw ynddynt. Nodwyd fod problemau wedi bod gyda'r dreiniau ond fod datrysiad bellach ac fod yr adran yn gobeithio y bydd unigolion yn y podiau o fewn y pythefnos nesaf.
- Holwyd os yw'r adran fel rhan o Gynllun Prynu Tai a Tir yn cadw golwg ar gyfryngau cymdeithasol gan fod nifer o bobl yn nodi eu bwriad i werthu ar y safleoedd yma er mwyn ceisio derbyn prynwr lleol. Nodwyd fod yr adran yn cadw golwg ac fod modd i unigolion ddod yn uniongyrchol at y Cyngor yn ogystal i nodi eu hawydd i werthu yn uniongyrchol i'r Cyngor.
- Gofynnwyd os yw'r Cyngor yn edrych ar eu stadau a mân-ddaliadau fel lleoliadau i adeiladu tai. Nodwyd fod y Cyngor yn edrych a bob darn o dir sydd yn eiddo iddynt er mwyn sicrhau cyfleodd i godi tai newydd.

## 8. BLAEN RAGLEN Y CABINET

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y Flaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 2:15pm

**CADEIRYDD**